



Taflen waith 7 – Cwestiynau yr Adran Weithredol Unedol

Darllenwch y detholiad yma ar yr 'Adran Weithredol Unedol' ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Roedd arlwyddiaeth ôl 9/11 George Bush yn un ymwithgar a oedd yn arddangos grym a hefyd, mewn llawer o ffyrdd yn unochrog. Roedd cyfleoedd i roi grym ar waith yn dilyn ymosodiadau 11 Medi 2001 a digwyddodd y rhain, fwy neu lai, heb eu herio.

Canlyniad hyn oedd datblygu'r hyn a alwyd yn "Adran Weithredol Unedol". ... Yn dilyn 9/11 roedd gwrthblaid Ddemocratig yn y Gyngres bron wedi tawelu, roedd y cyhoedd yn cefnogi'r arlywydd, ac unwaith yr ymosododd UDA yn filwrol ar Afghanistan, roedd poblogrwydd yr arlywydd yn yr entrychion. ...

Cyhoeddodd yr arlywydd ryfel ryngwladol yn erbyn terfysgaeth; pasiwyd y ddeddf USA PATRIOT, sefydlwyd Adran Diogelu'r Famwlad, mabwysiadwyd yr egwyddor o "daro'n gyntaf" neu ryfela ataliol/ragymosodiadol, bu rhyfel yn erbyn llywodraeth y Taliban yn Afghanistan, aethpwyd i'r afael â rhwydwaith terfysgol al-Qaida a lansiwyd rhyfel yn erbyn Saddam Hussein yn Irac. ...

Wrth i'r rhyfel yn Irac chwerwi, wrth i enghreifftiau o arteithio carcharorion gan UDA ddod i'r fei, wrth i femoranda yn amddiffyn arteithio ac awdurdod anghyfreithlon i'r arlywydd ddod i sylw'r wasg, wrth i newyddion am y symud anarferol o garcharorion ("extraordinary renditions") ymddangos ar y cyfryngau, wrth i fanylion am garchar Bae Guantanamo ddod i'r amlwg, wrth i gynlluniau'r arlywydd i sefydlu tribiwnlysoedd militaraidd a gwarafun yr hawliau hynny sy'n rhan o Gonfensiwm Geneva ddod i'r wyneb, gorfodwyd yr arlywyddiaeth i fod yn fwy amddiffynnol. ...

Roedd beirniaid yn daer bod gweithrediadau'r arlywydd yn bygwth rhannu pwerau, gwiriad a chydbwysedd a hyd yn oed y gyfraith. Nid Bush oedd yr arlywydd cyntaf i weithredu y tu hwnt i'r gyfraith, ond roedd ei ddadl na ddylai'r arlywydd fod yn gaeth i ofynion cyfreithiol mewn cyfnod o ryfel yn drywydd newydd ac yn fygythiad sylweddol i'r Cyfansoddiad a'r gwahanu o bwerau.

Michael A. Genovese, 'Foundations of the Unitary Executive of George W. Bush' yn Christopher S. Kelley & Ryan J. Barilleaux eds, *The Unitary Executive and the Modern Presidency*, (Texas A&M University Press, 2010)

Cwestiwn 1:

Pam roedd George W. Bush yn gallu rhoi pŵer unochrog ar waith yn dilyn ymosodiadau 9/11?

Cwestiwn 2:

Sut ddefnyddiodd George W. Bush y pŵer hwn?

Cwestiwn 3:

Beth a achosodd i farn pobl droi yn erbyn gweithrediadau Bush?

Cwestiwn 4:

Beth oedd y prif feirniadaethau am y ffaith bod Bush yn defnyddio pŵer arlywyddol drwy fabwysiadu'r theori o "Weithredu Unedol"?

Cwestiwn 5:

Oes yna unrhyw wahaniaeth rhwng "Arlywyddiaeth Imperialaidd" a "Gweithredu Unedol"?